

Cyngor Cymuned Eglwys Bach - Cofnodion Cyfarfod 02/10/17

PRESENNOL: Cynghorwyr:, John Emlyn Jones (Cadeirydd rhan gyntaf y cyfarfod a chofnodwr), Gwilym Williams, John Lloyd Williams, Arthur Williams, Ceri Leeder, Phyllis Purchase, Catherine Williams a Gwyn Morris Jones (yn hwyrach)

YMDDIHEURIADAU: Gwenan Roberts ac Austin Roberts

Cafwyd cyflwyniad ar ddechrau'r cyfarfod yn dangos y gwahanol achlysuron pan fo angen i gynghorwyr ddatgan diddordeb.

DATGAN DIDDORDEB: DIM

COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF: Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod diwethaf (04/09/17).

MATERION YN CODI:

1. Arwydd Canolfan Bwyd Cymru - Mae'r Cynghorydd Austin Roberts wedi derbyn gohebiaeth oddi wrth Lywodraeth Cymru yn datgan mai mater i adran gynllunio CBS Conwy yw'r arwydd. Bydd y Cynghorydd Roberts yn codi'r mater gyda'r adran.

2. Arwyddion Y Diffibrilydd - Dim byd pellach.

3. Sŵn Cŵn yn Cyfarth- Nodwyd bod y sŵn yn parhau ac yn achosi niwsans i drigolion. Deallwyd na fydd yr ardan reoleiddio yn gwneud dim byd pellach oni bai eu bod yn derbyn cwyn eto.

4. Noson Tân Gwyllt- Darllenwyd llythyr a dderbyniwyd oddi wrth bennaeth yr ysgol yn dweud na fydd y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon yn gallu trefnu'r noson, yn rhannol oherwydd materion iechyd a diogelwch.

5. Y Fynwent- Bydd y Cynghorydd Austin Roberts yn mynd i roi halen ar y bonion yr wythnos hon. Nid yw Emrys Davies wedi bod yn casglu'r toriadau glaswellt eto.

6. Pont Ffordd Bryn Hir- Mae rhan o'r gwaith o amgylch y bont wedi ei gwblhau. Mae'r gwaith wedi gorfod peidio oherwydd y tywydd, lefel dŵr yn yr afon a bod y tymor epilio wedi cychwyn. Cafwyd ar ddeall y bydd CBS Conwy yn ail gyflwyno cais am arian yn y gwanwyn i gwblhau'r gwaith. Bydd giât lifogydd bwrpasol yn cael ei rhoi ar y bont. Mynegwyd pryder y byddai'r afon yn erydu'r lan tu cefn i gerrig sydd islaw'r bont dros amser.

Penderfynwyd: Anfon at CBS Conwy i dynnu eu sylw at hyn.

7. Cinio Nadolig

Penderfynwyd gofyn i'r Cadeirydd i wneud y trefniadau.

Ymunodd y Cynghorydd Gwyn Morris Jones â'r cyfarfod a chymryd y gadair.

8. Hysbysfwrdd. Hysbysodd y Cynghorydd John Emlyn Jones fod pris yr hysbysfwrdd gan y Noticeboard Company wedi codi i dros £2,000. Amlinellodd y Cynghorydd Ceri Leeder y sgwrs a gafodd hi a'r Cynghorydd John Emlyn Jones gyda swyddog o adran seiri coed Bodnant. Dangoswyd cynllun o hysbysfwrdd derw fydd yn cynnwys adran ar gyfer

hysbysebion y Cyngor ac adran mwy ar gyfer hysbysebion gan y cyhoedd. Roedd y cynghorwyr yn fodlon iawn gyda'r cynllun.

Penderfynwyd: Bwrw 'maen i gael pris gan Bodnant. Uchafswm o £1,500 o gost i'r Cyngor.

9.Clerc- Deallwyd fod yna berson wedi dangos diddordeb mewn ymgymryd â gwaith y cleric.

Penderfynwyd: Cynnal cyfarfod gyda'r person dan sylw nos Fawrth y 10fed neu'r 17eg.

10. Ceisiadau Cynllunio - Trafodwyd y ceisiadau cynllunio canlynol:

0/44374 Maes Glas, Ffordd Tŷ Uchaf Graig- codi garej a storfa goed allanol.

Penderfynwyd: Does gan y Cyngor ddim sylw i'w wneud am y cais.

0/44418. Gronwen - Dymchwel rhan o'r adeilad a chodi estyniad.

Penderfynwyd: Does gan y Cyngor ddim gwrthwynebiad i'r cais. Rydym yn falch o weld y ddarpariaeth eang ar gyfer gwarchod ystlymod ac ail sefydlu blychau nythu a hoffem weld manau pwrpasol ar gyfer gwenoliaid a gwenoliaid y bondo.

0/44430 Helmydd - Mynediad newydd.

Penderfynwyd: Gwrthwynebu'r cais gan fod y mynediad newydd ar ffordd heb fod ymhell o dro a bod cerbydau yn teithio'n gyflym ar hyd-ddi.

11.Awdit Allanol: Cyflwynwyd yr awdit allanol am y flwyddyn ddaeth i ben 31/03/17 a dderbyniwyd oddi wrth gwmni BDO. Nodwyd dau beth oedd angen sylw sef:

- i) Nid yw'r ychwanegiadau (gliniadur a thaflunydd newydd) wedi eu cynnwys ar y ffurflen.
- ii) Nid oedd cofnod fod y cyfrifon wedi eu hardysio mewn cyfarfod llawn o'r cyngor.

Nododd y cleric dros dro ei anfodlonrwydd parthed yr ohebiaeth, oedd ar adegau yn wallus, a gafwyd gan y cwmni archwilio ynghyd â'r cyfathrebu gyda swyddogion y cwmni.

Penderfynwyd: Derbyn yr argymhellion.

12. Adroddiad ariannol

Cyfri Cyfredol £6,637

Cyfri Angladdau £2,322

Cyfri Cadw: £2,069

13. Taliadau -

Sue Hayward (glanhau toiledau Medi) £98

W D Williams (torri glaswellt(£330) a thrwsio polyn giât £50) £380

14. Gohebiaeth -

14.1 Cais am nawdd

Darllenwyd llythyr gan un o fechgyn ifanc y pentref yn gofyn i'r Cyngor ei noddi i godi arian tuag at gynnal y clwb pêl droed roedd ef ac eraill yn y pentref yn ei fynychu.

Penderfynwyd: Rhoi cyfraniad o £20

14.2 eDdeiseb

Darllenwyd llythyr oddi wrth y Cynghorydd Mike Priestly (CBS Conwy) yn gofyn i'r cynghorwyr arwyddo deiseb yn gofyn i'r Llywodraeth adolygu eu nodyn cyngor technegol 1 (TAN1) yn ymwneud â chyflenwad tir 5 mlynedd ar gyfer datblygiadau tai.

14.3 Eisteddfod Genedlaethol Sir Conwy 2019

Darllenwyd llythyr oddi wrth Alwyn Roberts Pennaeth Gweithredu Cymunedol Eisteddfod Genedlaethol Cymru yn gwahodd cynrychiolwyr i gyfarfod cyhoeddus sydd i'w gynnal y Glasdir Llanrwst nos Iau Hydref 12fed am 7:00yh

14.4 Graean ar gyfer y tywydd garw

Darllenwyd llythyr oddi wrth Lisa Madden, Swyddog Cefnogi Datblygiad Busnes, CBS Conwy yn cynnig 1 dunnell fetrig o halen mewn bagiau i'r Cyngor ar gyfer ei ddsbarthu yn ystod tywydd garw.

Penderfynwyd: Peidio derbyn y cynnig oherwydd nid oes gan y Cyngor le i storio'r bagiau o raean na'r modd i'w dosbarthu.

14.5 Diffibrilydd ar gyfer ardal Maenan

Darllenwyd llythyr oddi wrth un o drigolion Maenan yn gofyn am gyfraniad ariannol tuag at bwrcasu diffibrilydd ar gyfer ardal Maenan.

Penderfynwyd peidio â gwneud cyfraniad.

15.UFA

15.1 Biniau Graean.

Penderfynwyd: Cysylltu â ChBS Conwy yn gofyn iddynt sicrhau fod biniau graean yr ardal yn cael eu llenwi cyn y tywydd garw.

15.2 Ffens Diogelwch ger yr Eglwys

Penderfynwyd: Gofyn i GBS Conwy sicrhau fod y ffens yn cael ei baentio.

15.3 Mainc er cof am Arfon Roberts. Derbyniwyd cais i osod mainc er cof am Arfon Roberts ar y llain tir ger y polyn fflag.

Penderfynwyd: Doedd gan y Cynghorwyr ddim gwrthwynebiad i hyn ond yn teimlo y byddai'n well disgwyl hyd nes bydd yr hysbysfwrdd yn ei le a'r polyn wedi sythu cyn penderfynu ar leoliad.

15.4 Sgipiau Ailgylchu ger yr Ysgol

Penderfynwyd: Anfon at GBS Conwy yn tynnu eu sylw at y ffaith fod y sgip ailgylchu offer trydanol ger yr ysgol wedi gorlenwi.

16. Gohebiaeth bellach

Atgoffwyd yr aelodau fod y canlynol wedi eu hanfon i'w cyfeiriadau e-bost:

- Ymgynghoriad Cyngor Iechyd Cymru i bapur gwyn Lywodraeth Cymru.
- Ymgynghoriad - Canllaw i Brif Gynghorau
- Bwletin Newyddion Un Llais Cymru

Terfynwyd y cyfarfod am 9:15

Dyddiad y Cyfarfod Nesaf - Tachwedd 6^{ed} neu'r 7^{fed} am 7:30